Roeddwn yn bresennol yn y derbyniad ar gais y siambr. Rydw i wedi gweithio gyda'r siambr fel Gweinidog ac ers gadael y Llywodraeth. Cynhaliwyd y digwyddiad gan Neale Richmond TD, y Gweinidog dros Ddatblygu Rhyngwladol ac Alltudiaeth.

Roedd sawl TD o bob rhan o'r sbectrwm gwleidyddol yn bresennol. Trafodwyd y cyfleoedd sy'n bodoli rhwng Cymru ac Iwerddon ar y llwyfan, ac yn bwysicach fyth, fe'u trafodwyd yn ystod gweddill y digwyddiad a'r diwrnod canlynol. Roedd busnesau'n fy adnabod fel AS, ac yn sgil y pandemig, fy ngwaith yng ngweinidogaeth yr economi, ac fel cyn Brif Weinidog. Roedd gwir ddiddordeb yng Nghymru a natur y broses ddatganoledig o ddylanwadu a gwneud penderfyniadau.

Mae gan y siambr gysylltiadau da â San Steffan, ac mae'n gwerthfawrogi pwysigrwydd datganoli. Roedd yn arbennig o ddefnyddiol cael y cyfle i drafod rôl y Senedd a Llywodraeth Cymru o ran gwneud penderfyniadau mewn perthynas ag ystod o gyfleoedd ym maes datblygu economaidd, trwyddedu amgylcheddol, dyfodol y broses o gynhyrchu a throsglwyddo ynni [ynni adnewyddadwy ac ynni niwclear yn benodol], gwaith diwygio parhaus ym meysydd iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg, a'r cyfleoedd ym maes gwyddorau bywyd.

Yn ystod y sgyrsiau a gefais gydag amrywiaeth o gwmnïau sy'n darparu gwasanaethau proffesiynol, tynnwyd sylw at yr angen parhaus am lais Cymreig i dynnu sylw at gyfleoedd dysgu ym mhob un o'r meysydd dan sylw ar gyfer Cymru ac Iwerddon. Mae rhai cwmnïau Gwyddelig wedi cynyddu eu presenoldeb yng Nghymru, ond mae cyfleoedd pellach yn bosibl. Heb bresenoldeb a gwaith ymgysylltu parhaus gan y Senedd a Llywodraeth Cymru, mae cyfleoedd yn debygol o gael eu colli.

Er bod porthladdoedd Cymru yn cael eu cydnabod fel adnoddau sy'n debygol o gael eu defnyddio i gyflawni potensial Môr Iwerddon o ran ynni adnewyddadwy, mae opsiynau eraill ar gael o hyd os nad yw'r gwaith ymgysylltu sy'n digwydd ar bolisi, y gadwyn gyflenwi a'r broses gyflawni yn

cael ei gynnal a’i ddatblygu. Cafodd uwchgynhadledd buddsoddi ryngwladol Cymru ei chrybwyll mewn modd rhagweithiol a chadarnhaol gan nifer o aelodau'r siambr.

Ers y digwyddiad, mae cyhoeddiadau Llywodraeth y DU ynghylch AR7 – sef cefnogi’r broses o ddatblygu a defnyddio ynni adnewyddadwy – wedi rhoi sicrwydd i brosiect Erebus, sy’n brosiect ynni gwynt arnofiol ar y môr, ac mae hynny i’w groesawu. Mae llawer i'w wneud o hyd er mwyn sicrhau'r budd mwyaf posibl i'r ddwy wlad.

Cofion

Y Gwir Anrhydeddus Vaughan Gething AS

De Caerdydd a Phenarth

Cardiff South & Penarth